**Tasg 2**

# Hanes

Mae'r ddau ddarn yn cyfeirio at ddigwyddiadau hanesyddol.

1. Rhestrwch y digwyddiadau yn y golofn chwith isod.
2. Yna, chwiliwch am gymaint o fanylion â phosib am y digwyddiadau. Ysgrifennwch y wybodaeth yn y golofn dde.

| Digwyddiad hanesyddol | Gwybodaeth |
|---|---|
| Noson gyntaf S4C | |
| | |
| | |
| | |
| | |

3. Rhannwch y wybodaeth rydych chi wedi dod o hyd iddi gyda'r grŵp.

4. Gwyliwch y clip yma: [http://www.bbc.co.uk/education/clips/zm7jmp3](http://www.bbc.co.uk/education/clips/zm7jmp3)

   Mewn grŵp, trafodwch y cwestiynau hyn:

| | |
|---|---|
| a. | Beth mae'r clip yn ei ddangos? |
| b. | Pam roedd pobl yn ymgyrchu? |
| c. | Roedd y bobl hyn yn torri'r gyfraith. Beth yw'ch barn chi am ymgyrchu lle mae pobl yn torri'r gyfraith? |
| ch. | Trafodwch wahanol ffyrdd o ymgyrchu. Meddyliwch am bethau sy'n digwydd yn y byd heddiw os ydych chi eisiau. |
| d. | Beth, yn eich barn chi, yw'r ffordd orau o ymgyrchu? Rhowch resymau i gefnogi'ch barn. |

5. Mae cylchgrawn ar gyfer pobl ifanc yn gofyn i chi ysgrifennu darn am hanes sefydlu'r sianel Gymraeg.
   Ysgrifennwch y darn.

   Gallech chi sôn am:
   - y rhaglenni Cymraeg oedd ar y teledu cyn 1982
   - ble roedden nhw'n cael eu dangos
   - beth oedd agwedd pobl at hyn
   - sut roedd pobl yn ymgyrchu
   - y camau pwysig yn hanes sefydlu S4C
   - y noson gyntaf
   - S4C heddiw.